



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhaglen Trawsnewid
Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

Cwestiynau Cyffredin

Fersiwn 2.0

Mae'r ddogfen hon sy'n cynnwys cwestiynau cyffredin yn ceisio ateb cwestiynau ynghylch Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a'r rhaglen drawsnewid ehangach.

Bydd y Ddeddf a'r rhaglen ehangach yn trawsnewid y systemau gwahanol ar gyfer anghenion addysgol arbennig (AAA) mewn ysgolion ac anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) mewn addysg bellach, er mwyn creu system unedig i gynorthwyo dysgwyr rhwng 0 a 25 oed sydd ag ADY.

Ym mis Rhagfyr 2016, cafodd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Pasiwyd y Bil ar 12 Rhagfyr 2017 ac, yn ddiweddarach, cafodd Gydsyniad Brenhinol i fod yn Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).

Er mwyn cefnogi gweithrediad y system newydd, gan gynnwys y Ddeddf, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu pum arweinydd trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen. Bydd pedwar o'r arweinwyr trawsnewid yn gweithredu'n rhanbarthol, yn ôl patrwm y consortia addysg, a bydd un o'r arweinwyr yn gweithio fel arweinydd trawsnewid addysg bellach yn genedlaethol.

Bydd y swyddi hyn yn chwarae rhan hanfodol yn ein strategaeth weithredu gyffredinol drwy sicrhau bod y gwasanaethau yn barod i weithredu'r system anghenion dysgu ychwanegol newydd. Byddant yn cynorthwyo ac yn herio, yn cyflawni rôl gydgysylltu, yn goruchwyllo hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ac yn chwarae rhan allweddol o ran hwyluso gwelliannau mewn perthynas â gwaith amlasiantaeth.

Cynnwys

1	GWEITHREDU	7
1.1	Pa brosesau ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd ar waith i baratoi ar gyfer gweithredu'r system newydd? 7	
1.2	Pryd y dylai ysgolion ac awdurdodau lleol ddechrau newid datganiadau a chynlluniau anstatudol yn Gynlluniau Datblygu Unigol (CDUau)?	7
1.3	Pryd y bydd y system newydd yn dod i rym?	8
1.4	Pa wersi a ddysgwyd yn sgil gweithredu'r diwygiadau Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd yn Lloegr?	8
1.5	A yw'r model cyflawni newydd wedi'i gostio'n llawn ac a oes modd ei gyflawni o ystyried y mesurau cyni y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu?	8
1.6	Pa gymorth ariannol a roddir i sicrhau proses bontio effeithiol i'r system newydd? Sut bydd yn cael ei ddarparu ac i bwy?	9
1.7	A fydd arweiniad pellach ynghylch symud i'r system newydd, gan gynnwys newidiadau i CYBLD, a sut a phryd y bydd hynny'n digwydd?	10
1.8	Sut gallwn sicrhau bod gwaith gwella ysgolion yn rhoi ystyriaeth i ADY?	10
1.9	Ym mhle y mae categoreddio ysgolion yn cyd-fynd â'r agenda ynghylch ysgolion cynhwysol?	10
1.10	Sut bydd y Ddeddf yn cydgysylltu â Maes Dysgu a Phrofiad iechyd a lles wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd?	10
1.11	A fydd ADY yn cymryd lle unrhyw derminoleg a gydnabyddir mewn perthynas ag anawsterau dysgu, megis Anawsterau Dysgu Penodol? Na, ni fydd ADY yn cymryd lle unrhyw derminoleg a gydnabyddir mewn perthynas ag anawsterau dysgu, megis Anawsterau Dysgu Penodol. Mae ADY yn cymryd lle AAA ac AAD yn unig.	11
2	CYFRANOGIAD PLANT, POBL IFANC A RHINI	11
2.1	Sutdych wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc fel rhan o'r diwygiadau?	11
2.2	Pa rôl sydd gan blant, eu rhieni, a phobl ifanc, yn y broses hon?	11
2.3	Gyda'r system bresennol o ddatganiadau, mae rhieni'n teimlo bod yn rhaid iddynt frwydro i gael y cymorth iawn i'w plentyn. Sut bydd hyn yn wahanol yn y system newydd?	12
2.4	A fydd gwasanaethau eiriolaeth cryfach i gynorthwyo o ran sicrhau bod safbwyntiau dysgwyr yn cael eu clywed?	12
2.5	Sut byddwch yn rhoi gwybod i blant, eu rhieni, a phobl ifanc, am eu hawliau newydd?	12
2.6	Sut bydd y Ddeddf yn gwella gwasanaethau Cymraeg i ddysgwyr ledled Cymru?	12
3	CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL (CDUAU)	13

3.1	Pa ddysgwyr ag ADY fydd angen asesiad statudol cyn cael CDU?	13
3.2	Sut sicrheir cysondeb a chcludadwyedd o ran CDUau? A fydd templed cenedlaethol ar gyfer CDUau?	13
3.3	A fydd pob llais yn gyfartal yn y system newydd er mwyn penderfynu ar y ddarpariaeth orau i ddiwallu anghenion plentyn? Pwy sydd â'r gair olaf os oes gwahaniaeth barn ynghylch yr hyn a ddylai fod yn y cynllun?	13
3.4	A fydd dileu'r ffin rhwng Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy a datganiadau yn ei gwneud yn fwy cymhleth penderfynu pa ddysgwyr sy'n mynd i ysgolion arbennig?	13
3.5	Beth fydd y gwahaniaeth rhwng CDUau i ddisgyblion sydd â datganiad ar hyn o bryd o'u cymharu â disgyblion sy'n destun gweithredu gan yr ysgol?	14
3.6	Beth yw rôl yr awdurdod lleol o ran creu a chynnal CDUau?	14
3.7	Pa waith fydd ei angen i ddatblygu CDU?	14
3.8	Faint o amser y bydd yn ei gymryd i baratoi CDU a phroffil un dudalen?	14
4	TRIBIWNLYSOEDD	15
4.1	Beth yw pwrpas/awdurdodaeth y Tribiwnlys Addysg?	15
5	Y BLYNYDDOEDD CYNNAR	15
5.1	Sut mae sector y blynyddoedd cynnar wedi'i gynnwys wrth ddatblygu'r diwygiadau?	15
5.2	Sut bydd y diwygiadau yn sicrhau gwaith amlasiantaeth yn y blynyddoedd cynnar?	15
5.3	Beth y mae ADY yn ei olygu i blant dan oedran ysgol gorfodol, yn benodol yn yr ystod oedran 0-2?	16
5.4	Pam y byddai angen cynllun datblygu unigol ar blentyn dan oedran ysgol gorfodol?	16
5.5	Pwy fydd yn gyfrifol am CDUau i blant dan 3 oed?	17
5.6	A fydd cyllid ychwanegol yn benodol ar gyfer rôl Swyddog Arweiniol ADY (SAADY) y Blynyddoedd Cynnar?	18
6	ADDYSG HEBLAW YN YR YSGOL	18
6.1	Sut mae'r Ddeddf a'r rhaglen drawsnewid yn berthnasol i'r rheiny sydd mewn Addysg Heblaw yn yr Ysgol?	18
7	ADDYSG ÔL-16	18
7.1	Sut mae'r sector addysg bellach wedi'i gynnwys wrth ddatblygu'r diwygiadau?	18
7.2	Sut bydd y cyllid ar gyfer lleoliadau ôl-16 arbenigol yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol?	19
7.3	A ddisgwylir i'r dysgwyr hynny sydd mewn darpariaeth ôl-16 arbenigol annibynnol ar hyn o bryd gael cymorth mewn darpariaeth brif ffrwd yn y dyfodol?	19
7.4	Os 'nad oes hawl i addysg barhaus hyd at 25 oed', sut byddwn yn rheoli disgwyliadau rhieni?	19

7.5	Beth fydd rôl Gyrfa Cymru yn y broses bontio? A fydd ganddynt rôl o hyd o ran rhoi cyngor annibynnol i ddysgwyr ynghylch eu dewisiadau ôl-16?	20
7.6	A fydd y diwygiadau yn berthnasol i ddysgu seiliedig ar waith neu brentisiaethau?	20
7.7	Beth am fyfyrwyr â CDUau sy'n symud i addysg uwch?	20
8	IECHYD	21
8.1	Beth yw rôl y gwasanaeth iechyd yn y system ADY newydd?	21
8.2	Beth fydd y dyletswyddau statudol ar y GIG yn y Ddeddf yn ei olygu'n ymarferol?	21
8.3	Beth fydd rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (DECLLO)? Sawl DECLLO fydd a sut byddant yn cael eu cynnwys yn strwythurau presennol y Byrddau Iechyd?	21
8.4	Pa awdurdodaeth sydd gan y Tribiwnlys Addysg mewn perthynas â'r GIG?	21
8.5	Ar hyn o bryd, mae anghysonderau o ran penderfyniadau gan y Tribiwnlys AAA mewn perthynas â materion iechyd, sut sicrhau eglurder a chysondeb dan y system ADY?	22
8.6	Beth fydd statws asesiadau preifat i'r Tribiwnlys Addysg neu awdurdodau lleol os bydd rhiant yn talu am asesiad preifat sy'n wahanol i asesiad gan y GIG?	22
8.7	Dan y system newydd, a fydd therapi lleferydd ac iaith yn cael ei ystyried yn ddarpariaeth addysg yn hytrach na darpariaeth iechyd? Beth sy'n cael ei wneud i wella'r elfen sylfaenol hon o'r system?	22
8.8	Mae diffyg nyrsys ysgol ar hyn o bryd yn bryder difrifol mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol, sut rhoddir sylw i hyn?	22
8.9	A allwch ragweld mwy o gyfathrebu o ganlyniad i'r Ddeddf rhwng ysgolion a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)?	23
8.10	A fydd darpariaethau yn y Ddeddf yn effeithio'r dyletswyddau statudol presennol ar ysgolion i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion gofal iechyd?	23
8.11	Sut mae'r Ddeddf yn cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014?	23
8.12	O ran plant sy'n derbyn gofal, pryd y mae'r Cynllun Addysg Personol (CAP) yn troi'n CDU, pwy yw'r person arweiniol sy'n gyfrifol am y cynlluniau, ac a ddylai fod CDU gan yr holl blant sy'n derbyn gofal?	24
8.13	A yw'r Ddeddf yn cwmpasu plant a oedd yn arfer derbyn gofal yn ogystal â'r rheiny sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd?	24
9	DATBLYGU'R GWEITHLU	24
9.1	Beth yw cynlluniau Llywodraeth Cymru o ran sicrhau bod y gweithlu cyffredinol yn barod i ddarparu'r system newydd? A oes cysylltiadau yn cael eu creu â darparwyr addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon er mwyn datblygu sgiliau'r holl athrawon i gynorthwyo dysgwyr ag ADY?	24
9.2	Pa gymorth y bydd ymarferwyr yn ei gael i adnabod dysgwyr ag ADY?	24
9.3	A oes gennym ddigon o arbenigwyr yn y meysydd cywir? Beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod y gweithlu'n cael ei gynllunio'n effeithiol?	25

9.4	Beth yw rôl Cydlynwyr ADY? Mae angen hyblygrwydd i sicrhau eu bod yn gallu cael eu defnyddio i fodloni anghenion a chyd-destunau lleol.	25
9.5	Beth fydd y gofynion o ran cymwysterau i Gydlynwyr ADY?	26
9.6	A roddwyd ystyriaeth i gynyddu nifer y diwrnodau hyfforddiant mewn swydd er mwyn sicrhau bod digon o amser i ddarparu hyfforddiant ynghylch ADY ochr yn ochr â'r holl hyfforddiant statudol arall sydd ei angen?	26
9.7	A fydd Model Dysgu Proffesiynol ynghylch ADY?	26
10	Y COD	26
10.1	Beth yw statws y Cod drafft ac ym mhle y gallaf ddod o hyd i gopi ohono?	26
10.2	Beth yw'r camau nesaf o ran datblygu'r Cod?	27

1 Gweithredu

1.1 *Pa brosesau ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd ar waith i baratoi ar gyfer gweithredu'r system newydd?*

Mae'r prosesau ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi parhau ers cyflwyno'r Bil. Yn benodol, darparwyd 8 digwyddiad rhanbarthol i rhanddeiliaid yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2017. Daeth tua 800 o gynrychiolwyr o ystod eang o sectorau i'r digwyddiadau, gan gynnwys rhieni a chynrychiolwyr y sector iechyd, y sector addysg a'r trydydd sector. Mae adborth o'r digwyddiadau hyn wedi cael ei ddefnyddio, a bydd yn parhau i gael ei ddefnyddio, i lywio ein cynllun cyfathrebu wrth symud ymlaen ac, yn benodol, y gwaith o ddatblygu'r rhaglen drawsnewid ehangach a gweithredu'r Ddeddf.

Yn ystod mis Hydref, roedd grŵp darllen, a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid ac ymarferwyr allweddol, wedi ystyried y drafft diwygiedig o'r Cod, cyn iddo gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ym mis Rhagfyr. Bydd grŵp darllen i ystyried y fersiwn Cymraeg o'r Cod yn cael ei gynnal ddiwedd mis Tachwedd.

Mae'r arweinwyr trawsnewid ADY wrthi'n ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd â dyletswyddau dan y Ddeddf i'w cynorthwyo i baratoi ar gyfer ei gweithredu.

1.2 *Pryd y dylai ysgolion ac awdurdodau lleol ddechrau newid datganiadau a chynlluniau anstatudol yn Gynlluniau Datblygu Unigol (CDUau)?*

Tan fis Medi 2020, mae'n rhaid i awdurdodau lleol barhau i gydymffurfio â Deddf Addysg 1996, sy'n caniatáu hawl i ddysgwyr ofyn am ddatganiad, ac os oes angen datganiad arnynt, mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi datganiad ar waith ar gyfer y dysgwr. Disgwylir i awdurdodau lleol ddechrau gweithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar unigolion i baratoi ar gyfer y system newydd, ond nid yw hyn yn golygu eu bod yn gallu dewis peidio â darparu datganiad pan fydd y dysgwr neu ei rieni yn gofyn am ddatganiad.

Pan fydd datganiad yn cael ei newid yn CDU, bydd dyletswydd ar yr awdurdod lleol o hyd i gynnal y datganiad o AAA a threfnu'r ddarpariaeth addysg arbennig a amlinellwyd yn y datganiad hyd nes y bydd y CDU wedi'i greu a'i gytuno o fewn y ddwy flynedd gyntaf o weithredu.

Yn ystod y cyfnod gweithredu, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ac ysgolion barhau i roi ystyriaeth i Ddeddf Addysg 1996 (y Ddeddf Addysg) a Chod Ymarfer AAA Cymru 2002 (y Cod AAA) wrth gyflawni eu dyletswyddau i drefnu darpariaethau i'r rheiny sydd â datganiad o AAA, gan gynnwys adolygu datganiadau o leiaf bob blwyddyn.

Mae canllaw yn amlinellu'r amserlen ar gyfer newid datganiadau a chynlluniau addysg unigol yn CDUau wedi'i gyhoeddi. Mae ar gael ar y wefan ganlynol: <https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-ar-gyfer-cynlluniau-datblygu-unigol.pdf>

Bydd holl hawliau'r dysgwr dan y datganiad o AAA yn cael eu cynnal drwy gydol y cyfnod hwn, gan gynnwys hawliau i apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, hyd nes y bydd yn cael CDU neu lythyr gan yr awdurdod lleol yn gwrthod rhoi CDU iddo. Pan fydd y penderfyniad i roi neu beidio â rhoi CDU wedi'i wneud, bydd gan y dysgwr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg.

1.3 Pryd y bydd y system newydd yn dod i rym?

Bydd y system yn dod i rym ym mis Medi 2020. O fis Medi 2020 ymlaen, bydd CDU yn cael ei baratoi dan y system newydd ar gyfer yr holl ddysgwyr sydd newydd gael eu hadnabod yn ddysgwyr sydd ag ADY.

Bydd datganiadau dysgwyr sydd â datganiadau eisoes yn cael eu newid yn CDUau cyn pen dwy flynedd, gan ddechrau ym mis Medi 2020. Erbyn diwedd blwyddyn ysgol 2021/22, bydd CDUau gan yr holl ddysgwyr yr oedd ganddynt ddatganiadau yn flaenorol.

Bydd cynlluniau dysgwyr sy'n destun gweithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy eisoes (neu gynlluniau eraill nad ydynt yn ddatganiadau) yn cael eu newid yn CDUau cyn pen tair blynedd, gan ddechrau ym mis Medi 2020. Erbyn diwedd blwyddyn ysgol 2022/23, bydd y system newydd mewn grym ar gyfer yr holl ddysgwyr ag ADY.

1.4 Pa wersi a ddysgwyd yn sgil gweithredu'r diwygiadau Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd yn Lloegr?

Rydym wedi bod yn ymgysylltu â chydweithwyr yn yr Adran Addysg yn Lloegr ac rydym yn awyddus i ddysgu'r gwersi yn sgil gweithredu eu diwygiadau ac osgoi'r heriau a wynebwyd ganddynt. Wedi dweud hynny, mae'r system yn Lloegr yn wahanol iawn i'r system a gynigir yng Nghymru, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol.

1.5 A yw'r model cyflawni newydd wedi'i gostio'n llawn ac a oes modd ei gyflawni o ystyried y mesurau cyni y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu?

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi amcangyfrif o'r costau hynny sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau sydd eu hangen i symud o un system statudol i system arall.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer yn y memorandwm esboniadol ar y wefan:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s68616/Memorandwm%20Esboniadol%20diwygiedig%20-%20Tachwedd%202017.pdf>

Bydd cost symud o'r system bresennol i'r system newydd yn cael ei thalu gan becyn cyllido'r broses weithredu, sy'n werth £20 miliwn, a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r pecyn yn mynd ymhellach na chyllido'r broses o symud o un system statudol i system arall. Mae'n buddsoddi mewn sgiliau a datblygiad proffesiynol i sicrhau ein bod nid yn unig yn cyflawni'r ddeddfwriaeth ond ein bod yn wir yn newid ymarfer ar lawr gwlad ac yn gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Unwaith y bydd wedi'i gweithredu, disgwylir i'r system newydd gostio llai i'w chynnal na'r system bresennol, ac mae profiad yr awdurdodau lleol sydd eisoes yn gweithredu elfennau allweddol o'r system ADY newydd yn cadarnhau hyn. Y bwriad bob amser oedd y byddai unrhyw arbedion o ran costau gweinyddol yn cael eu hailfuddsoddi i gynorthwyo plant a phobl ifanc ac nid yw hynny wedi newid.

1.6 Pa gymorth ariannol a roddir i sicrhau proses bontio effeithiol i'r system newydd? Sut bydd yn cael ei ddarparu ac i bwy?

Rydym yn cydnabod y bydd gan y broses bontio o'r system bresennol i'r system newydd oblygiadau o ran cost. Dyna pam y sicrhawyd bod pecyn o £20 miliwn ar gael i gefnogi'r gwaith o weithredu'r diwygiadau.

Sicrhawyd bod £2.1 miliwn o gyllid y Gronfa Arloesi ar gael rhwng 2016/17 a 2017/18. Roedd y gronfa yn targedu prosiectau partneriaeth rhanbarthol i gynorthwyo partneriaid cyflenwi i baratoi ar gyfer y newidiadau sydd i ddod.

Hefyd, rydym yn cyllido'r broses o recriwtio pum arweinydd trawsnewid ADY a fydd yn darparu cyngor, cymorth a her i awdurdodau lleol, ysgolion, lleoliadau'r blynyddoedd cynnar a sefydliadau addysg bellach wrth iddynt baratoi i weithredu'r diwygiadau ADY, gan gynnwys drwy hunanasesiadau parodrwydd a datblygu cynlluniau gweithredu lleol. Bydd pedwar arweinydd trawsnewid yn cael eu cyflogi a'u rheoli gan awdurdod arweiniol ar ran y grŵp o awdurdodau mewn rhanbarth a bydd un yn cael ei gyflogi a'i reoli gan Golegau Cymru ar ran y colegau addysg bellach yng Nghymru. Bydd gwaith yr arweinwyr trawsnewid yn cael ei gefnogi gan Grantiau Trawsnewid ADY a fydd yn cael eu dyrannu i bob un o'r arweinwyr trawsnewid rhanbarthol ar sail fformiwla; bydd hyn yn caniatáu i bob un o'r rhanbarthau dargedu'r arian fel y nodwyd yn eu cynllun gweithredu rhanbarthol.

1.7 A fydd arweiniad pellach ynghylch symud i'r system newydd, gan gynnwys newidiadau i CYBLD, a sut a phryd y bydd hynny'n digwydd?

Cyhoeddwyd y cyntaf mewn cyfres o ganllawiau gweithredu manwl ym mis Gorffennaf 2018 i helpu ymarferwyr i symud o un system statudol i system arall. Mae'r [canllaw](#) hwn yn canolbwyntio ar weithredu CDUau ar gyfer plant oedran ysgol gorfodol ac iau.

1.8 Sut gallwn sicrhau bod gwaith gwella ysgolion yn rhoi ystyriaeth i ADY?

Nid yw ADY yn rhan o'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol swyddogaethau sy'n ymwneud â gwella addysg ac ADY yn eu hardal. Maent yn cadw'r prif gyfrifoldeb am y swyddogaethau hyn, hyd yn oed lle mae consortia yn gweithredu i gefnogi gwaith gwella ysgolion.

1.9 Ym mhle y mae categorieiddio ysgolion yn cyd-fynd â'r agenda ynghylch ysgolion cynhwysol?

Mae'r System Genedlaethol ar gyfer Categorieiddio Ysgolion yn cynnig dull gweithredu cyfannol o ran gwella ysgolion, sy'n caniatáu i gyd-destun ysgol, yn ogystal â mesurau perfformiad perthnasol, gael eu hystyried wrth benderfynu ynghylch lefel y cymorth sydd ei angen. Rydym yn gwerthfawrogi perfformiad yr holl ddysgwyr, ac felly mae'r holl ddysgwyr yn cael eu cynnwys yn ein data.

O 2018 ymlaen, bydd Cam 1 o'r System Genedlaethol ar gyfer Categorieiddio Ysgolion, sy'n gosod ysgolion mewn grŵp safonau, yn cael ei ddileu.

Yn lle hynny, bydd gan hunanwerthuso le amlycach yn y model. Bydd data ysgolion, gan gynnwys data a oedd yn rhan o Gam 1, yn parhau i gael ei rannu â'r consortia rhanbarthol a'i ddefnyddio yn fan cychwyn ar gyfer trafodaethau yn yr ysgol, a chyda'u cynghorydd herio, ynghylch eu gallu i wella o ran arweinyddiaeth, addysgu a dysgu.

Mae cam dau o'r system gategoreiddio yn caniatáu i gynghorwyr herio ystyried y cyd-destun y mae'r ysgol yn gweithio ynddo, fel rhan o'u hasesiad o allu'r ysgol i wella ei hun. Mae hwn yn gyfle i ysgolion drafod eu data â chynghorwyr herio yng nghyd-destun eu holl ddysgwyr. Felly, dim ond man cychwyn yw data bob amser; mae hunanwerthuso da yn ceisio deall y materion sydd wrth wraidd y data er mwyn cefnogi gwell canlyniadau i'r holl ddysgwyr.

Drwy'r broses hon, bydd rhaglen bwrpasol o gymorth, her ac ymyrraeth yn cael ei llywio a'i rhoi ar waith.

1.10 Sut bydd y Ddeddf yn cydgysylltu â Maes Dysgu a Phrofiad iechyd a lles wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd?

Mae'r Ddeddf yn berthnasol i'r cwricwlwm newydd yn ei gyfanrwydd, ac nid i'r Maes Dysgu a Phrofiad iechyd a lles yn unig. Mae'r adolygiad o Ddyfodol Llwyddiannus yn cynnig cwricwlwm a fframwaith asesu i'r holl blant a phobl

ifanc yng Nghymru, heb ystyried unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a all fod ganddynt, sy'n cwmpasu pob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Dylai'r holl blant a phobl ifanc wneud cynnydd ar hyd yr un continwmm, er y gallant gyrraedd a symud rhwng Camau Cynnydd yn arafach neu'n gyflymach nag eraill.

1.11 A fydd ADY yn cymryd lle unrhyw derminoleg a gydnabyddir mewn perthynas ag anawsterau dysgu, megis Anawsterau Dysgu Penodol?

Na, ni fydd ADY yn cymryd lle unrhyw derminoleg a gydnabyddir mewn perthynas ag anawsterau dysgu, megis Anawsterau Dysgu Penodol. Mae ADY yn cymryd lle AAA ac AAD yn unig.

2 Cyfranogiad plant, pobl ifanc a rhieni

2.1 Sutdych wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc fel rhan o'r diwygiadau?

Roeddem wedi ymgynghori'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc ynghylch y Bil drafft hwn a defnyddio eu hadborth i lywio'r newidiadau a wnaed i'r Bil cyn iddo gael ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Rhagfyr 2016.

Cafodd esboniad 'hawdd ei ddarllen' o'r Bil ei gyhoeddi ar 14 Chwefror 2017 er mwyn ehangu hygyrchedd y wybodaeth am y rhaglen drawsnewid a pha effaith y bydd y diwygiadau yn ei chael ar y rheiny a effeithir yn uniongyrchol ganddynt.

Yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2017, darparwyd 8 digwyddiad rhanbarthol i randdeiliaid. Daeth rhieni i bob digwyddiad ac mae'r adborth yn ystod y sesiynau wedi'i ddefnyddio i ddrafftio'r cyntaf mewn cyfres o ganllawiau gweithredu.

Bydd gwaith ymgysylltu â phlant, eu rhieni a phobl ifanc yn parhau yn ystod y broses o graffu ar y Cod a'r rheoliadau, a drwy gydol y cyfnod gweithredu.

2.2 Pa rôl sydd gan blant, eu rhieni, a phobl ifanc, yn y broses hon?

Amcan ein rhaglen drawsnewid yw sicrhau system deg a chyfiawn i'r HOLL ddysgwyr ag ADY. Mae'r system newydd yn rhoi'r dysgwr wrth galon popeth sy'n digwydd. Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod dysgwyr yn cael y ddarpariaeth iawn ar yr amser iawn i ddiwallu eu hanghenion.

Bydd safbwyntiau, dymuniadau a theimladau plant, eu rhieni a phobl ifanc yn chwarae rhan hollbwysig wrth ddatblygu pob CDU. Rydym am sicrhau bod CDUau yn adlewyrchu anghenion a phersonoliaeth y plentyn neu'r person ifanc, gan gynnwys beth sy'n bwysig iddynt ac ar eu cyfer.

2.3 Gyda'r system bresennol o ddatganiadau, mae rhieni'n teimlo bod yn rhaid iddynt frwydro i gael y cymorth iawn i'w plentyn. Sut bydd hyn yn wahanol yn y system newydd?

Yn hytrach na thair lefel wahanol o gymorth – gweithredu gan yr ysgol, gweithredu gan yr ysgol a mwy a datganiadau – bydd gan y system newydd raddau o fewn un system. Bydd gwahaniaethau mympwyol rhwng anghenion sy'n ddigonol i gyfiawnhau cynllun statudol a'r rheiny nad ydynt yn ddigonol, yn cael eu dileu. Bydd yr holl ffocws yn newid i sicrhau bod dysgwyr yn cael y cymorth sy'n briodol i'w hanghenion a'u hamgylchiadau newidiol. Bydd y CDU yn ddigon hyblyg i sicrhau bod lefel ei fanylder yn gyson â lefel anghenion yr unigolyn.

2.4 A fydd gwasanaethau eiriolaeth cryfach i gynorthwyo o ran sicrhau bod safbwyntiau dysgwyr yn cael eu clywed?

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i roi cyngor a gwybodaeth i bobl ac mae'n rhaid iddynt wneud hynny mewn modd diduedd. Ar wahân i hynny, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i blant a phobl ifanc os byddant yn anghytuno â phenderfyniad. Bydd y Cod yn rhoi mwy o fanylion ynghylch sut dylid cyflawni'r dyletswyddau hyn.

2.5 Sut byddwch yn rhoi gwybod i blant, eu rhieni, a phobl ifanc, am eu hawliau newydd?

Mae'r Rhaglen Trawsnewid ADY yn cynnwys maes gweithgarwch penodol ynghylch codi ymwybyddiaeth. Yn ogystal ag ymgysylltu â phlant, eu rhieni a phobl ifanc ar lefel genedlaethol, bydd yr arweinwyr trawsnewid ADY yn datblygu cynlluniau cyfathrebu rhanbarthol.

Hefyd, dan y Ddeddf, bydd yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth ar gael i blant, eu rhieni a phobl ifanc.

2.6 Sut bydd y Ddeddf yn gwella gwasanaethau Cymraeg i ddysgwyr ledled Cymru?

Un o nodau craidd y Ddeddf yw creu system wirioneddol ddwyieithog yng Nghymru.

Bydd yn ofynnol i wasanaethau ystyried a oes ar y plentyn neu'r person ifanc angen darpariaeth ddysgu ychwanegol yn y Gymraeg; bydd y ddyletswydd hon yn un barhaus, yn hytrach na phenderfyniad unwaith yn unig. Os felly, mae'n rhaid dogfennu hyn yn y CDU ac mae'n rhaid cymryd 'pob cam rhesymol' i sicrhau'r ddarpariaeth yn y Gymraeg. Mae mecanwaith wedi'i gynnwys yn y Ddeddf i ddileu drwy'r rheoliadau y prawf ynghylch 'pob cam rhesymol', fel y bydd y ddyletswyddau i gynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy gydol y

Gymraeg yn dod yn absoliwt dros amser. Hefyd, bydd cyfres o ddyletswyddau statudol yn ceisio hybu cynnydd tuag at system ADY wirioneddol ddwyieithog.

Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddrafftio ac ymgynghori ynghylch Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, a'u cyhoeddi, sy'n dangos sut byddant yn ceisio cyflawni'r canlyniadau a'r targedau ynghylch darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu hardal, gan gynnwys mewn perthynas â dysgwyr ag ADY.

3 Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau)

3.1 Pa ddysgwyr ag ADY fydd angen asesiad statudol cyn cael CDU?

Dim un, bydd gan yr holl ddysgwyr ag ADY hawl i gael cynllun statudol (y CDU) heb ystyried pa mor ddifrifol y mae eu hanghenion.

3.2 Sut sicrhair cysondeb a chcludadwyedd o ran CDUau? A fydd templed cenedlaethol ar gyfer CDUau?

Bydd y Cod yn amlinellu cynnwys gorfodol yr holl CDUau fel eu bod yn cynnwys y cysondeb sydd ei angen i hwyluso'r broses o'u trosglwyddo. At hynny, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cod gynnwys ffurflen neu ffurflenni CDU safonol y mae'n rhaid i ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol eu defnyddio.

Ymgynghorir ynghylch cynnwys gorfodol CDUau fel rhan o'r ymgynghoriad ynghylch y Cod.

3.3 A fydd pob llais yn gyfartal yn y system newydd er mwyn penderfynu ar y ddarpariaeth orau i ddiwallu anghenion plentyn? Pwy sydd â'r gair olaf os oes gwahaniaeth barn ynghylch yr hyn a ddylai fod yn y cynllun?

Dylai cyfarfodydd ynghylch CDUau ganolbwyntio ar anghenion dysgwyr unigol, lle bydd gwybodaeth gan weithwyr proffesiynol, teuluoedd a'r dysgwyr eu hunain ar gael i bawb, yn hygyrch i bawb, a lle gall pawb gyfrannu ar sail gyfartal. Os bydd anghytundebau, yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu sy'n gyfrifol am sicrhau'r ddarpariaeth fydd yn gwneud y penderfyniadau ynghylch darpariaeth ddysgu ychwanegol briodol. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi trefniadau ar waith i ddatrys anghytundeb a chynnig gwasanaethau eiriolaeth i ddelio â'r anghytundebau hyn. Os bydd yn amhosibl datrys anghytundeb, mae darpariaeth yn y Ddeddf i Dribiwnlys Addysg Cymru ystyried achosion.

3.4 A fydd dileu'r ffin rhwng Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy a datganiadau yn ei gwneud yn fwy cymhleth penderfynu pa ddysgwyr sy'n mynd i ysgolion arbennig?

Na fydd. Yr awdurdod lleol fydd yn gwneud penderfyniadau ynghylch lleoliadau. Os bydd angen i blentyn fynd i ysgol arbennig er mwyn cael addysg addas a

darpariaeth ddysgu ychwanegol briodol, bydd yr awdurdod lleol yn enwi'r ysgol arbennig yn y CDU.

3.5 *Beth fydd y gwahaniaeth rhwng CDUau i ddisgyblion sydd â datganiad ar hyn o bryd o'u cymharu â disgyblion sy'n destun gweithredu gan yr ysgol?*

Bydd statws statudol y CDU yr un peth ni waeth beth yw anghenion y disgybl. Felly, byddai'r CDU i ddisgybl sy'n cael cymorth drwy weithredu gan yr ysgol a mwy ar hyn o bryd yn debyg iawn i gynllun disgybl sydd â datganiad ar hyn o bryd. Bydd CDUau yn amrywio o ran eu hyd a'r manylion y maent yn eu cynnwys. Bydd gan ddisgyblion sydd ag anghenion difrifol a chymhleth CDUau sy'n cynnwys mwy o wybodaeth ac sy'n amlinellu mwy o gymorth nag yn achos disgyblion sydd ag anghenion llai difrifol. Y prif beth yw y bydd tegwch o ran hawliau cyfreithiol ac amddiffyniadau ni waeth beth yw lefel yr anghenion.

3.6 *Beth yw rôl yr awdurdod lleol o ran creu a chynnal CDUau?*

Bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am baratoi a chynnal CDUau i blant a phobl ifanc sydd ag ADY ond nad ydynt mewn ysgol a gynhelir na sefydliad addysg bellach. Byddai'r rhain yn cynnwys plant sy'n mynd i leoliadau'r blynyddoedd cynnar neu ysgolion annibynnol, plant nad ydynt yn mynd i unrhyw leoliad o gwbl, a phobl ifanc dros 16 oed y mae arnynt angen darpariaeth annibynnol arbenigol. Hefyd, byddai awdurdodau lleol yn cynnal CDUau i blant a phobl ifanc sy'n mynd i ysgol neu sefydliad addysg bellach ac y mae arnynt angen darpariaeth ddysgu ychwanegol na fyddai'n rhesymol i'r corff llywodraethu ei sicrhau.

3.7 *Pa waith fydd ei angen i ddatblygu CDU?*

Bydd natur a maint y gwaith sydd ei angen i ddatblygu CDU yn amrywio'n sylweddol. Dylai paratoi CDU cryno i blentyn neu berson ifanc sydd ag anghenion llai difrifol neu gymhleth fod yn broses gymharol syml a chyflym. Dylai CDUau o'r fath ffurfio mwyafrif helaeth y cynlluniau sy'n cael eu paratoi. Mae'n debygol y bydd angen mewnbwn a chyngor gan arbenigwr wrth baratoi CDU i blentyn neu berson ifanc sydd ag anghenion difrifol, cymhleth neu lai cyffredin ac y bydd yn manylu ar ystod llawer ehangach o ymyriadau. Mae'n anorod y bydd angen mwy o amser ac ymdrech i baratoi CDU o'r fath ond ni ddylai fod ei angen ond mewn ychydig o achosion.

3.8 *Faint o amser y bydd yn ei gymryd i baratoi CDU a phroffil un dudalen?*

Bydd hyn yn amrywio ar sail natur a maint ADY y plentyn neu'r person ifanc, a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen i ddiwallu'r ADY. Bwriedir i'r CDU fod yn ddogfen hyblyg o ran ei hyd, ac felly mae'r amser sydd ei angen i'w baratoi yn cael ei bennu gan amgylchiadau'r plentyn neu'r person ifanc.

4 Tribiwnlysoedd

4.1 *Beth yw pwrpas/awdurdodaeth y Tribiwnlys Addysg?*

Bydd Tribiwnlys Addysg Cymru ('y Tribiwnlys') yn cymryd lle Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru sy'n bodoli dan y system AAA bresennol. Bydd y Tribiwnlys yn gwrandao ar apelïadau a cheisiadau ynghylch plant a phobl ifanc sydd ag ADY, neu y gall fod ganddynt ADY, ac yn penderfynu yn eu cylch. Yn benodol, bydd yn gwrandao ar apelïadau ynghylch penderfyniadau sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yng Nghymru, ac yn penderfynu yn eu cylch. Hefyd, bydd yn gwrandao ar hawliadau ynghylch gwahaniaethu ar sail anabled mewn perthynas ag ysgolion.

Bydd y Tribiwnlys yn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch gallu plentyn i ddeall materion sy'n ymwneud â'r system ADY, gan gynnwys yr hyn y mae cyflwyno apêl i Dribiwnlys yn ei olygu. Os bydd yn datgan nad oes gan blentyn y fath allu i ddeall, bydd y Tribiwnlys yn gallu penodi cyfaill achos i'r plentyn hwnnw.

Bydd y Tribiwnlys yn annibynnol ar y Llywodraeth, awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach; ac mae ei benderfyniadau yn rhwymo awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach mewn cyfraith. Hefyd, bydd yn gallu mynnu bod corff y GIG yn darparu tystiolaeth ynghylch arfer swyddogaethau'r corff a gwneud argymhellion i gorff y GIG ynghylch arfer swyddogaethau'r corff.

5 Y Blynyddoedd Cynnar

5.1 *Sut mae sector y blynyddoedd cynnar wedi'i gynnwys wrth ddatblygu'r diwygiadau?*

Yn ystod y broses o ddatblygu'r Bil, roeddem wedi sefydlu grŵp arbenigol ar y Blynyddoedd Cynnar a roddodd ystyriaeth benodol i effaith y diwygiadau ar blant yn y blynyddoedd cynnar a gweithlu'r blynyddoedd cynnar. Roedd y grŵp wedi ein cyngori ynghylch ystyriaethau gweithredol ac ymarferol o ran y blynyddoedd cynnar, gan gynnwys gweithlu'r blynyddoedd cynnar, a oedd yn cefnogi datblygu'r Bil, y Cod ADY drafft a chymorth o ran ei weithredu. Roedd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr CWLWM, y Cyfnod Sylfaen, Dechrau'n Deg, ymarferwyr iechyd, ysgolion, addysg feithrin nas cynhelir, Cyngor Gofal Cymru, staff y blynyddoedd cynnar mewn awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

5.2 *Sut bydd y diwygiadau yn sicrhau gwaith amlasiantaeth yn y blynyddoedd cynnar?*

Roedd Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £2.1 miliwn mewn prosiectau'r gronfa arloesi a oedd â'r nod o ddatblygu arferion gwaith amlasiantaeth effeithiol yr oedd rhai ohonynt yn rhoi ystyriaeth benodol i arferion gorau yn y blynyddoedd cynnar. Roedd y Grŵp Arbenigol ar y Blynyddoedd Cynnar wedi myfyrio ynghylch canfyddiadau'r prosiectau a nodi sut gellid defnyddio'r canfyddiadau i wella gwaith amlasiantaeth a gwaith partneriaeth ledled Cymru.

Bydd rôl statudol Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar yn chwarae rhan hollbwysig wrth godi ymwybyddiaeth ynghylch ADY ymhlith partneriaid amlasiantaeth a sicrhau bod gan weithlu'r blynyddoedd cynnar y sgiliau, y mecanweithiau a'r offer priodol i atal datblygiad ADY a chynorthwyo plant ifanc ag ADY. Bydd Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar yn gyswllt allweddol rhwng yr awdurdod lleol ac asiantaethau eraill.

Hefyd, bydd gan y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (sydd hefyd yn rôl statudol a amlinellwyd yn y Ddeddf) a Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar rôl allweddol wrth sicrhau bod gwahanol asiantaethau yn cydweithio'n effeithiol i adnabod plant ifanc ag ADY ar y cyfle cyntaf a rhoi'r ddarpariaeth briodol ar waith i ddiwallu anghenion y plentyn. Mae'r rolau hyn yn arbennig o bwysig i sicrhau gwaith amlasiantaeth rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol.

5.3 Beth y mae ADY yn ei olygu i blant dan oedran ysgol gorfodol, yn benodol yn yr ystod oedran 0-2?

Mae gan ddysgwr ADY os oes ganddo/ganddi anhawster neu anabledd dysgu sy'n gofyn darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY).

Mae gan blentyn dan oedran ysgol gorfodol anhawster neu anabledd dysgu os yw ef neu hi yn debygol (neu y byddai'n debygol pe na bai DDdY) o gael cryn dipyn yn fwy o anhawster wrth ddysgu na'r rhan fwyaf o'i gyfoedion/chyfoedion pan fydd yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol.

Mae DDdY i ddysgwr dros 3 oed yn golygu darpariaeth addysg neu hyfforddiant sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i'r ddarpariaeth a wneir yn gyffredinol i blant eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd.

O ran y rheiny dan 3 oed, mae'n golygu darpariaeth addysg o unrhyw fath.

Drwy gynnwys plant o adeg eu geni i fyny, gellir sicrhau bod ymyrraeth a DDdY yn cael eu rhoi ar waith mor gynnar â phosibl, lle mae angen. Drwy adnabod ADY yn gynnar a rhoi ymyriadau amserol ar waith, bydd plant ag ADY yn cael eu cynorthwyo i gyflawni eu llawn botensial. Dyma un o brif nodau'r system ADY.

5.4 Pam y byddai angen cynllun datblygu unigol ar blentyn dan oedran ysgol gorfodol?

Bydd CDU yn amlinellu'r DDdY sydd ei hangen ar blentyn neu berson ifanc i gefnogi ei (d)dysgu a'i (h)addysg. Er efallai na fydd angen darpariaeth o'r fath ar blentyn dan 3 oed hyd nes y bydd yn dechrau addysg feithrin, gellir datblygu CDU yn gynnar i sicrhau bod y lleoliad yn gallu cynllunio a pharatoi'n dda ar gyfer cyrhaeddiad y plentyn a helpu i sicrhau proses bontio esmwyth i'r lleoliad

ar gyfer y plentyn. Gall fod achosion lle mae angen DDdY ar blentyn dan 3 oed, er enghraifft i gefnogi ei (d)dysgu mewn lleoliad sy'n darparu gofal plant.

Hefyd, gall fod achosion lle gellir adnabod ADY plentyn cyn iddo/iddi fynd i feithrinfa. Er enghraifft, efallai y bydd gan blentyn anghenion difrifol a chymhleth o adeg ei (g)eni ac y bydd yr awdurdod lleol yn nodi bod y plentyn yn debygol o gael cryn dipyn yn fwy o anhawster wrth ddysgu na'r rhan fwyaf o'i gyfoedion/chyfoedion pan fydd yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol.

Beth ydyw ADY, a beth nad ydyw.

Efallai y bydd gan rai plant anabledd neu gyflwr meddygol nad yw'n gofyn DDdY. Mae'r enghreifftiau canlynol yn rhoi eglurder ynghylch beth ydyw ADY a beth nad ydyw.

- Os oedd gan blentyn dan oedran ysgol gorfodol oedi sylweddol o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu, ac os barnwyd (gan yr awdurdod lleol neu'r feithrinfa a gynhelir lle mae wedi'i gofrestru/chofrestru) bod angen DDdY, a phenderfynwyd bod gan y plentyn ADY, byddai CDU yn cael ei roi ar waith.
- Gall rhai anableddau effeithio ar fynediad plentyn i leoliad sy'n darparu gofal plant neu addysg feithrin, ond ni fyddai ei (h)anabledd yn effeithio ei (d)dysgu, e.e. os oedd angen iddo/iddi ddefnyddio cadair olwyn neu os oedd angen defnyddio dull bwydo PEG. Unwaith y byddai'r trefniadau angenrheidiol wedi'u rhoi ar waith i ganiatáu i'r plentyn gael mynediad i'r lleoliad, ni fyddai arno/arni angen DDdY o reidrwydd, ac felly ni fyddai ganddo/ganddi ADY.

5.5 Pwy fydd yn gyfrifol am CDUau i blant dan 3 oed?

Os bydd yr awdurdod lleol (o ran y rheiny mewn lleoliadau nas cynhelir), neu'r ysgol a gynhelir lle mae wedi'i gofrestru/chofrestru, yn nodi bod gan blentyn dan oedran ysgol gorfodol ADY, bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol neu'r ysgol a gynhelir, yn y drefn honno, sicrhau CDU. Yr unig eithriad fydd os yw'r DDdY yn driniaeth neu'n wasanaeth perthnasol a nodwyd gan gorff y GIG ac, yn yr achos hwnnw, bydd yn rhaid i gorff y GIG sicrhau'r DDdY.

O ran plant dan oedran ysgol gorfodol sy'n mynd i ysgol a gynhelir (addysg feithrin), byddai'r ysgol yn gyfrifol am baratoi CDU a sicrhau'r ddarpariaeth a nodwyd yn y CDU. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gall yr ysgol gyfeirio'r achos at yr awdurdod lleol i'w ystyried, megis:

- os bydd yr ysgol o'r farn bod ADY plentyn yn gofyn DDdY na fyddai'n rhesymol i'r ysgol ei sicrhau; neu
- os na all yr ysgol bennu natur neu faint ADY plentyn yn ddigonol.

Gan ddibynnu ar benderfyniad yr awdurdod lleol ar ôl iddo ystyried yr achos, gall fynd yn gyfrifol am gynnal y CDU yn lle'r ysgol.

5.6 A fydd cyllid ychwanegol yn benodol ar gyfer rôl Swyddog Arweiniol ADY (SAADY) y Blynyddoedd Cynnar?

Drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol wrth ddatblygu'r Bil, gan gynnwys cydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol, gwelwyd bod rolau tebyg i rôl SAADY y Blynyddoedd Cynnar yn bodoli eisoes mewn nifer o awdurdodau lleol. Mae'r rolau hyn yn cynnwys cyfrifoldebau, er enghraifft, am reoli atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan yr awdurdod, gan gynnwys oddi wrth y GIG.

Felly, dywedwyd wrthym y gallai rôl SAADY y Blynyddoedd Cynnar gael ei chyflawni gan yr awdurdodau lleol drwy ddefnyddio cyllid presennol. Wedi hynny, penderfynodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd roi sail statudol i'r rôl.

Bydd y Cod yn rhoi arweiniad ynghylch y rôl.

6 Addysg Heblaw yn yr Ysgol

6.1 Sut mae'r Ddeddf a'r rhaglen drawsnewid yn berthnasol i'r rheiny sydd mewn Addysg Heblaw yn yr Ysgol?

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd dysgwyr sydd mewn addysg heblaw yn yr ysgol yn gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol a bydd dyletswydd arno, lle bo'n briodol, i benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc sydd mewn addysg heblaw yn yr ysgol ADY ac, os felly, paratoi a chynnal CDU ar ei gyfer/chyfer.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau cysylltu â'r sector drwy'r Grŵp Cyflawni Addysg Heblaw yn yr Ysgol i ddatblygu cynigion ynghylch sut bydd trawsnewid ADY yn cynorthwyo dysgwyr sydd mewn addysg heblaw yn yr ysgol (gan gynnwys y rheiny sy'n mynd i unedau cyfeirio disgyblion), ac sydd ag ADY, er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn cyflawni eu llawn botensial.

Bydd rhagor o fanylion ynghylch y cynigion hyn yn rhan o'r ymgynghoriad ynghylch y Cod ADY yn ddiweddarach eleni.

7 Addysg Ôl-16

7.1 Sut mae'r sector addysg bellach wedi'i gynnwys wrth ddatblygu'r diwygiadau?

Rydym wedi sefydlu nifer o grwpiau arbenigol sy'n rhoi ystyriaeth benodol i wahanol elfennau o'r diwygiadau, gan gynnwys y materion y gall sefydliadau addysg bellach eu hwynebu, ac maent yn dod o hyd i atebion iddynt. Mae'r grwpiau yn cynnwys cynrychiolwyr sefydliadau addysg bellach. Hefyd, mae'r

rhwydwaith ADY addysg bellach yn cael ei gynnwys drwy gydol y broses ddiwygio er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir o effaith y diwygiadau ym maes addysg bellach a rhannu arferion gorau.

7.2 *Sut bydd y cyllid ar gyfer lleoliadau ôl-16 arbenigol yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol?*

Mae trafodaethau gyda llywodraeth leol ynghylch y dull dosbarthu ar gyfer ariannu darpariaeth arbenigol yn y dyfodol eisoes wedi dechrau a byddant yn parhau yn ystod 2018.

7.3 *A ddisgwylir i'r dysgwyr hynny sydd mewn darpariaeth ôl-16 arbenigol annibynnol ar hyn o bryd gael cymorth mewn darpariaeth brif ffrwd yn y dyfodol?*

Bydd y bobl ifanc hynny sydd wedi sicrhau lleoliad mewn sefydliad ôl-16 arbenigol annibynnol yn parhau gyda'u darparwr am gyfnod eu rhaglen astudio bresennol a gytunwyd. Fodd bynnag, dan y system newydd, bydd cyfrifoldeb am sicrhau darpariaeth ôl-16 arbenigol yn trosglwyddo o Weinidogion Cymru i'r awdurdodau lleol.

Mae hyn yn golygu y bydd penderfyniadau yn y dyfodol yn cael eu gwneud yn lleol gan bobl a fydd fel arfer wedi ymwneud â chynorthwyo'r person ifanc drwy gydol ei (h)addysg. Bydd yr awdurdodau lleol yn gyfarwydd ag anghenion y bobl ifanc sydd yn y system a gallant gynllunio flynyddoedd ymlaen llaw am eu proses bontio i addysg ôl-16. Bydd hyn hefyd yn annog ac yn galluogi awdurdodau lleol a darparwyr ôl-16 (prif ffrwd ac annibynnol) i gydweithio i gynllunio am y ddarpariaeth sydd ei hangen yn y dyfodol i ddiwallu anghenion lleol, a'i datblygu.

7.4 *Os 'nad oes hawl i addysg barhaus hyd at 25 oed', sut byddwn yn rheoli disgwyladau rhieni?*

Nid yw'r Ddeddf yn rhoi hawl i bobl ifanc ag ADY gael addysg a hyfforddiant hyd at 25 oed. Yn hytrach, mae ei darpariaethau wedi'u cynllunio i sicrhau bod pobl ifanc ag ADY yn gallu cyrchu'r cyfleoedd ôl-16 sydd ar gael i'r rheiny nad oes ganddynt ADY. Mae'n ymwneud â sicrhau tegwch o ran mynediad cyn belled â phosibl.

Dylid rheoli disgwyladau rhieni yn unol ag arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion. Bydd angen i ymarferwyr sicrhau bod targedau clir sy'n gysylltiedig â chanlyniadau a chyrchfannau a ddymunir ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n cyrchu darpariaeth ôl-16. Bydd hyn yn sicrhau bod rhieni a theuluoedd yn eglur ynghylch y cyfeiriad y mae'r person ifanc yn mynd iddo ac yn canolbwyntio ar bontio o addysg bellach. Hefyd, bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth a chyingor cynhwysfawr, sydd wedi'u teilwra'n briodol, ar gael fel rhan o'u trefniadau statudol mewn perthynas â'r materion hyn.

7.5 Beth fydd rôl Gyrfa Cymru yn y broses bontio? A fydd ganddynt rôl o hyd o ran rhoi cyngor annibynnol i ddysgwyr ynghylch eu dewisiadau ôl-16?

Bydd Gyrfa Cymru yn parhau i roi cyngor annibynnol ynghylch gyrfaoedd i'r holl bobl ifanc, beth bynnag yw eu hanghenion, a bydd hyn yn cynnwys rhoi cyngor i bobl ifanc ag ADY ynghylch dewisiadau ôl-16 posibl.

Ni fydd angen rôl Gyrfa Cymru o ran cynnal asesiadau adran 140 (o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000) dan y system newydd. Fodd bynnag, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol, dan y system newydd, fydd sicrhau'r ddarpariaeth yr ystyrir ei bod yn angenrheidiol i ddiwallu anghenion y person ifanc.

7.6 A fydd y diwygiadau yn berthnasol i ddysgu seiliedig ar waith neu brentisiaethau?

Na fyddant. Nid yw'r Ddeddf yn ymestyn i addysg uwch, dysgu seiliedig ar waith na phrentisiaethau. Ni fyddai'n briodol rhoi dyletswyddau ar gyflogwyr. Fodd bynnag, os bydd dysgwr sy'n ymgymryd â dysgu seiliedig ar waith neu brentisiaeth wedi'i gofrestru/chofrestru yn fyfyrwr mewn sefydliad addysg bellach, bydd y dyletswyddau ar y sefydliad addysg bellach yn berthnasol. Hefyd, os bydd y person ifanc yn cytuno y gall y CDU gael ei drosglwyddo gydag ef/hi i'w sefydliad addysg uwch, darparwr dysgu seiliedig ar waith neu brentisiaeth, gellir ei ddefnyddio ar gyfer y broses bontio ac i gefnogi gwaith cynllunio. Rydym yn parhau i weithio gyda chydweithwyr sy'n gyfrifol am brentisiaethau a dysgu seiliedig ar waith i nodi'r gwahanol sefyllfaoedd ac awgrymu'r arferion gorau o ran ymdrin â nhw yn y Cod.

Rydym yn credu bod defnyddio trefniadau contractiol yn ffordd well o ddiogelu a hybu buddiannau dysgwyr ag ADY yn y sector dysgu seiliedig ar waith. Rydym eisoes wedi gwneud yr ymrwymiad hwn ac mae gwaith yn mynd rhagddo eisoes ar draws y Llywodraeth i wireddu hyn. Mae'r gofynion contractiol presennol o ran dysgu seiliedig ar waith eisoes yn cynnwys darpariaeth ynghylch cymorth dysgu ychwanegol ar gyfer hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith, ac mae cyllid ar gael i gontractwyr er mwyn talu costau cysylltiedig. Rydym yn ystyried pa welliannau y gellir eu gwneud i'r trefniadau presennol fel rhan o'r broses o symud tuag at Cymru'n Gweithio o 2019 ymlaen.

7.7 Beth am fyfyrwyr â CDUau sy'n symud i addysg uwch?

Gallai'r CDU fod yn ffordd ddefnyddiol o drosglwyddo gwybodaeth hanfodol o ysgolion a sefydliadau addysg bellach i sefydliadau addysg uwch, ynghylch y cymorth y gall fod ei angen ar ddysgwr tra ei fod/bod mewn addysg uwch. Hefyd, gall yr elfen o CDU sy'n ymwneud â chynllunio'r broses bontio gynnwys archwiliad o'r cymorth y gall fod ei angen ar ddysgwr o hyd ar ôl iddo/iddi drosglwyddo i addysg uwch. Fodd bynnag, bydd trosglwyddo'r wybodaeth hon yn amodol ar gael caniatâd gan y person ifanc.

8 Iechyd

8.1 Beth yw rôl y gwasanaeth iechyd yn y system ADY newydd?

Mae dyletswyddau ar gyrrff iechyd dan y Ddeddf i gynorthwyo awdurdodau lleol wrth gyflawni eu swyddogaethau dan y Ddeddf. Gall awdurdodau lleol ofyn am wybodaeth a chymorth arall gan gyrrff iechyd a allai gynnwys asesiad neu gyngor arbenigol i gyfrannu at CDU plentyn neu berson ifanc. Yn dilyn atgyfeiriad gan awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach, gall y corff iechyd nodi triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod yn fuddiol o ran mynd i'r afael ag ADY y plentyn neu'r person ifanc. Pan fydd triniaeth neu wasanaeth wedi'i nodi, bydd hynny'n cael ei gofnodi yn CDU y plentyn neu'r person ifanc fel darpariaeth ddysgu ychwanegol.

8.2 Beth fydd y dyletswyddau statudol ar y GIG yn y Ddeddf yn ei olygu'n ymarferol?

Mae'r dyletswyddau statudol ar y gwasanaeth iechyd i ystyried a sicrhau darpariaeth yn canolbwyntio ar anghenion clinigol y dysgwyr. Y brif ystyriaeth fydd a oes triniaeth neu wasanaeth iechyd y byddai'r GIG fel arfer yn ei (d)darparu, sy'n debygol o fod yn fuddiol o ran mynd i'r afael ag ADY y dysgwyr. Bydd rhagor o arweiniad ymarferol ar gael yn y Cod.

8.3 Beth fydd rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (DECLO)? Sawl DECLO fydd a sut byddant yn cael eu cynnwys yn strwythurau presennol y Byrddau Iechyd?

Bydd dyletswydd statudol ar bob bwrdd iechyd i benodi unigolyn i fod yn Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (DECLO). Ei rôl fydd cydgyssylltu swyddogaethau byrddau iechyd lleol dan y Ddeddf. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

- galluogi'r Bwrdd Iechyd Lleol i gyflawni ei ddyletswydd i gydweithio â gwasanaethau eraill i hybu gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc ag ADY;
- gweithredu'n strategol i hyrwyddo ADY yn y Bwrdd Iechyd Lleol a hybu ffyrdd newydd o weithio a rhannu arferion gorau;
- sicrhau dull gweithredu strategol cyson o ran nodi, asesu, cynllunio, gweithredu a monitro CDUau;
- rheoli a monitro cydymffurfiaeth â dyletswyddau'r Bwrdd Iechyd Lleol o ran ADY, a
- mesur llwyddiant ymyriadau'r Bwrdd Iechyd Lleol.

8.4 Pa awdurdodaeth sydd gan y Tribiwnlys Addysg mewn perthynas â'r GIG?

Nid oes gan y Tribiwnlys awdurdodaeth dros y gwasanaeth iechyd. Fodd bynnag, gall y Tribiwnlys fynnu bod corff y GIG yn darparu tystiolaeth ynghylch yr elfennau o apêl sy'n ymwneud ag iechyd a gall wneud argymhellion i gorff y GIG ynghylch arfer ei swyddogaethau dan y Ddeddf. Os bydd awdurdod lleol

yn gwneud argymhelliad i gorff y GIG, mae'n rhaid i'r corff hwnnw adrodd yn ôl i'r Tribiwnlys, gan nodi'r canlynol:

- y camau y mae wedi'u cymryd neu y mae'n bwriadu eu cymryd i ymateb i argymhelliad y Tribiwnlys; neu
- pam nad yw wedi cymryd unrhyw gamau, a pham nad yw'n bwriadu cymryd unrhyw gamau, i ymateb i'r argymhelliad.

Gall y Tribiwnlys wneud Gorchymyn sy'n rhwymo'r awdurdod lleol mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol o unrhyw fath, gan gynnwys darpariaeth a gynigir fel arfer gan gorff iechyd. Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau uniondeb y corff iechyd o ran penderfyniadau clinigol proffesiynol, tra'n sicrhau bod yr hawl i apelio yn cael ei chynnal a bod y penderfyniadau a wneir gan y Tribiwnlys yn rhwymol. Os yw'r corff iechyd wedi penderfynu nad yw'n briodol iddo gynnig y ddarpariaeth benodol honno, byddem yn disgwyl i'r awdurdod lleol a'r corff iechyd gydweithio i ddatrys y mater. Bydd y DECLO yn chwarae rhan hollbwysig mewn materion o'r fath.

8.5 *Ar hyn o bryd, mae anghysonderau o ran penderfyniadau gan y Tribiwnlys AAA mewn perthynas â materion iechyd, sut sicrhair eglurder a chysondeb dan y system ADY?*

Mae ffocws ac arbenigedd y Tribiwnlys ar benderfynu ar yr hyn y dylid ei ddarparu i ddiwallu anghenion dysgwyr. Ymdrinnir â phob achos ar sail unigol ac mae'r penderfyniadau yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd.

8.6 *Beth fydd statws asesiadau preifat i'r Tribiwnlys Addysg neu awdurdodau lleol os bydd rhiant yn talu am asesiad preifat sy'n wahanol i asesiad gan y GIG?*

Byddai'r Tribiwnlys yn defnyddio ei farn arbenigol ei hun mewn achosion lle mae gweithwyr proffesiynol yn cyflwyno tystiolaeth anghyson.

8.7 *Dan y system newydd, a fydd therapi lleferydd ac iaith yn cael ei ystyried yn ddarpariaeth addysg yn hytrach na darpariaeth iechyd? Beth sy'n cael ei wneud i wella'r elfen sylfaenol hon o'r system?*

Gall therapiau sy'n addysgu neu'n hyfforddi gael eu cyfrif yn ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Nid yw therapi cyfathrebu a lleferydd ac iaith yn faes ar gyfer y GIG yn unig, ond dylid ei ystyried yn fater trawsbynciol, lle mae angen cydweithredu a gwaith partneriaeth ar draws pob sector. Mae'n rhaid meithrin gallu ar bob lefel ac mae'n rhaid bod cyfrifoldeb ar y cyd am ddarparu gwasanaethau cyffredinol, gwasanaethau wedi'u targedu a gwasanaethau arbenigol gan gyrrff iechyd ac addysg.

8.8 *Mae diffyg nyrsys ysgol ar hyn o bryd yn bryder difrifol mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol, sut rhoddir sylw i hyn?*

Lansiwyd Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru ym mis Mai. Mae'r ddogfen ddiwygiedig hon yn ailadrodd y disgwyliad i sicrhau y bydd gan bob ysgol uwchradd brif ffrwd a'i chwstwr o ysgolion cynradd partner

Nyrs Iechyd y Cyhoedd benodol ac unigryw ar gyfer yr ysgol, yn ogystal â thîm â chymysgedd o sgiliau perthnasol, sy'n cael eu cyflogi gan y GIG drwy gydol y flwyddyn. Bydd nyrs yr ysgol yn cynllunio, yn cydgysylltu, yn darparu ac yn gwerthuso ymyrraeth iechyd briodol a rhaglenni iechyd y cyhoedd ar gyfer yr holl blant oedran ysgol a phobl ifanc yng Nghymru.

8.9 A allwch ragweld mwy o gyfathrebu o ganlyniad i'r Ddeddf rhwng ysgolion a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)?

Bwriedir i'r Ddeddf a'r Rhaglen Drawsnewid gysylltiedig gefnogi dull gweithredu mwy cydgysylltiedig o ran diwallu anghenion dysgu ychwanegol. Os bydd corff iechyd yn penderfynu bod triniaeth neu wasanaeth CAMHS y gallai ei (d)darparu yn debygol o fod yn fuddiol o ran mynd i'r afael ag anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc, bydd CAMHS yn sicrhau'r ddarpariaeth honno. Os byddai cyfathrebu'n uniongyrchol â'r ysgol yn hwyluso hyn, byddem yn disgwyl i hyn ddigwydd.

8.10 A fydd darpariaethau yn y Ddeddf yn effeithio'r dyletswyddau statudol presennol ar ysgolion i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion gofal iechyd?

Ni fydd y Ddeddf yn newid y cyfrifoldebau sydd gan awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu eisoes i gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd. Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r canllawiau, 'Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd', sy'n gwneud y gofynion a'r disgwyliadau presennol yn eglur. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys canllawiau statudol a chynghor anstatudol i helpu awdurdodau lleol, cyrrff llywodraethu, lleoliadau addysg, gweithwyr proffesiynol ym maes addysg ac iechyd a sefydliadau eraill i gynorthwyo dysgwyr a sicrhau bod cyn lleied â phosibl o darfu ar eu haddysg. Hefyd, maent yn pwysleisio'r angen am ddull gweithredu cydweithredol gan weithwyr proffesiynol ym maes addysg ac iechyd, gan roi'r dysgwr yng nghanol y broses o wneud penderfyniadau.

Roeddem wedi ysgrifennu at ysgolion ym mis Mai 2017 i ailadrodd yr angen am bolisi ynghylch anghenion gofal iechyd ac at fyrddau iechyd i bwysleisio'r angen am gydweithio i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion gofal iechyd.
Gwasanaethau Cymdeithasol

8.11 Sut mae'r Ddeddf yn cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014?

Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth i ganiatáu i CDUau gael eu paratoi, eu hadolygu a'u diwygio ochr yn ochr â chynlluniau neu ddogfennau eraill. Mae hyn yn gyson â'r ddarpariaeth yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn adlewyrchu ein dymuniad i weld dull gweithredu integredig o ran cynllunio.

Yn hollbwysig, felly, gallai CDUau a Chynlluniau Gofal a Chymorth gael eu paratoi a'u hadolygu ochr yn ochr â'i gilydd. Bydd hyn yn cynnig profiad mwy cydgysylltiedig ac o bosibl darpariaeth fwy cyfannol i'r dysgwr, yn ogystal ag arbedion effeithlonrwydd i'r gweithwyr proffesiynol dan sylw.

8.12 O ran plant sy'n derbyn gofal, pryd y mae'r Cynllun Addysg Personol (CAP) yn troi'n CDU, pwy yw'r person arweiniol sy'n gyfrifol am y cynlluniau, ac a ddylai fod CDU gan yr holl blant sy'n derbyn gofal?

Dim ond plant sy'n derbyn gofal sydd ag ADY fydd yn cael CDU. Os mai dyna'r achos, ac os yw'r plentyn yn blentyn oedran ysgol gorfodol neu'n iau, bydd y CDU yn cael ei gynnwys yn y CAP a gynhelir gan yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn. Nid yw'r Ddeddf yn nodi pwy o fewn awdurdod lleol all fod â'r prif gyfrifoldeb am CDU, ond gall y Codau a luniwyd dan y Ddeddf a deddfwriaeth ynghylch gwasanaethau cymdeithasol sy'n bodoli eisoes roi arweiniad ynghylch hyn.

Rydym yn cydweithio â gweithwyr proffesiynol i sicrhau bod gweithredu a chanllawiau ynghylch yr elfen hon o'r system newydd yn gywir.

8.13 A yw'r Ddeddf yn cwmpasu plant a oedd yn arfer derbyn gofal yn ogystal â'r rheiny sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd?

Os oes gan blentyn a oedd yn arfer derbyn gofal hawl i gael CDU oherwydd bod ganddo/ganddi ADY, bydd yn cael cynllun yn yr un ffordd ag unrhyw blentyn neu berson ifanc arall.

9 Datblygu'r gweithlu

9.1 Beth yw cynlluniau Llywodraeth Cymru o ran sicrhau bod y gweithlu cyffredinol yn barod i ddarparu'r system newydd? A oes cysylltiadau yn cael eu creu â darparwyr addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon er mwyn datblygu sgiliau'r holl athrawon i gynorthwyo dysgwyr ag ADY?

Rydym yn creu cysylltiadau ag addysg gychwynnol i athrawon a bydd swm sylweddol o'r cyllid o £20 miliwn yn cael ei gyfeirio tuag at ddatblygu'r gweithlu. Rydym yn targedu datblygu'r gweithlu ar dair lefel: datblygu sgiliau craidd yr holl ymarferwyr, datblygu sgiliau uwch drwy greu rôl Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, a fydd yn cymryd lle rôl bresennol Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig; a datblygu sgiliau arbenigol ar gyfer gwasanaethau cymorth arbenigol a ddarperir gan awdurdodau lleol ac sydd ar gael i leoliadau addysg.

Ym mis Rhagfyr 2017, roeddem wedi caffael Eliesha Cymru i ddatblygu pecyn o ddeunyddiau hyfforddiant i gefnogi gweithrediad y Ddeddf a'r Cod. Rydym yn disgwyl y bydd y rhaglen hyfforddiant wedi'i thargedu at wahanol weithwyr proffesiynol lle bo'n briodol, y bydd yn cynnwys nifer o wahanol lefelau ac y bydd pob lefel yn fodiwlar. Bydd yr arweinwyr trawsnewid ADY yn gyfrifol am gyflwyno'r hyfforddiant ar sail amlasiantaeth yn rhanbarthol o fis Ionawr 2020 ymlaen.

9.2 Pa gymorth y bydd ymarferwyr yn ei gael i adnabod dysgwyr ag ADY?

Mae'r grŵp arbenigol ar hyfforddiant yn rhoi ystyriaeth benodol i ddatblygu ymarferwyr er mwyn cynorthwyo dysgwyr ag ADY yn well, gan gynnwys sut byddwn yn uwchsgilio'r gweithlu presennol. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr ysgolion arbennig ac ysgolion uwchradd, y blynyddoedd cynnar, cydweithwyr ym maes cynhwysiant a seicoleg addysgol mewn awdurdodau lleol, Llywodraethwyr Cymru, gwasanaethau cymdeithasol a Llywodraeth Cymru.

9.3 A oes gennym ddigon o arbenigwyr yn y meysydd cywir? Beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod y gweithlu'n cael ei gynllunio'n effeithiol?

I gynorthwyo o ran datblygu'r gweithlu mewn awdurdodau lleol, rydym wedi cyhoeddi adroddiad ynghylch casgliad data roeddem wedi'i gomisiynu gan Uned Ddata Cymru ynghylch staff a gyflogir gan wasanaethau arbenigol mewn awdurdodau lleol. Rydym hefyd yn buddsoddi yn yr hyfforddiant a'r datblygiad sydd eu hangen i gryfhau gallu gwasanaethau arbenigol awdurdodau lleol. Mae cyllid wedi'i ddarparu i gefnogi hyfforddiant ôl-radd ar gyfer ystod o athrawon arbenigol sy'n gweithio yn yr awdurdodau lleol.

I sicrhau cyflenwad parhaus o seicolegwyr addysgol, rydym yn parhau i ariannu rhaglen hyfforddiant proffesiynol Doethuriaeth Prifysgol Caerdydd mewn Seicoleg Addysgol (DEdPsy). Mae'r trefniant wedi'i gryfhau i adlewyrchu'r angen am ragor o seicolegwyr addysgol sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ac i annog graddedigion DEdPsy i weithio yng Nghymru.

9.4 Beth yw rôl Cydlynwyr ADY? Mae angen hyblygrwydd i sicrhau eu bod yn gallu cael eu defnyddio i fodloni anghenion a chyd-destunau lleol.

Mae'r cyfrifoldebau eang rydym yn eu rhagweld i Gydlynwyr ADY wedi'u datblygu gyda Chydlynwyr AAA presennol ac maent wedi'u llywio gan ein hymarferion peilot. Bydd rôl fanwl y Cydlynnydd ADY yn cael ei hamlinellu yn y Cod. Mae'n cael ei datblygu ymhellach gyda mewnbwn gan weithwyr proffesiynol. Rydym wedi cydweithio'n agos â grŵp arbenigol i ystyried gweithrediad y rôl.

Dylai'r Cydlynnydd ADY gynnig arweinyddiaeth strategol a bod yn bwynt cyswllt cyntaf yn y lleoliad ar gyfer cyngor ac arweiniad proffesiynol ychwanegol. Bydd Cydlynwyr ADY yn arbenigwyr ynghylch ADY ar y safle, gan bontio'r bwllch rhwng ymarferwyr yn yr ystafell ddosbarth a gwasanaethau arbenigol.

Bydd y Cydlynnydd ADY yn gyfrifol am sicrhau bod CDU gan yr holl ddysgwyr sydd ag ADY ar draws y lleoliad addysg. Ni fydd yn ofynnol i'r Cydlynnydd ADY ddatblygu pob CDU – gall unrhyw athro wneud hynny. Bydd y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud ar sail yr amgylchiadau ym mhob achos.

Rydym wedi gwneud newid pwysig i ddyletswydd y Cydlynnydd ADY yn y Ddeddf i sicrhau, er y bydd yn ofynnol i'r holl ysgolion a sefydliadau addysg bellach gael Cydlynnydd ADY, fod hyblygrwydd ynghylch hynny er mwyn i awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach ymaddasu i gyd-destunau lleol.

9.5 Beth fydd y gofynion o ran cymwysterau i Gydlynwyr ADY?

Mae Cydlynwyr ADY â chymwysterau addas yn hanfodol i weithrediad effeithiol y system newydd. Rydym wedi trafod amcanion a gweithrediad rôl y Cydlynwyr ADY gyda rhanddeiliaid a phartneriaid perthnasol. Rydym yn datblygu ymhellach y polisi ynghylch y gofynion o ran hyfforddiant i ymgymryd â'r rôl bwysig hon.

9.6 A roddwyd ystyriaeth i gynyddu nifer y diwrnodau hyfforddiant mewn swydd er mwyn sicrhau bod digon o amser i ddarparu hyfforddiant ynghylch ADY ochr yn ochr â'r holl hyfforddiant statudol arall sydd ei angen?

Mae diwrnodau hyfforddiant mewn swydd yn bwysig o ran cefnogi addysgu, dysgu ac asesu effeithiol. Mae athrawon yng Nghymru yn cael 5 diwrnod hyfforddiant mewn swydd yn rhinwedd y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol a bydd y rhain ar gael o hyd.

Mae nifer o ffactorau y mae angen rhoi ystyriaeth ofalus iddynt wrth ystyried diwrnodau ychwanegol. Mae anghenion hyfforddiant ar draws y sector ysgolion yn amrywio, dros amser ac o ran natur yr hyfforddiant y mae angen ei ddarparu a'r gwahanol leoliadau addysg dan sylw. Yn ogystal, byddai unrhyw gynnydd o ran dyrannu diwrnodau hyfforddiant yn arwain yn uniongyrchol at leihau nifer y diwrnodau dysgu a gynigir i ddisgyblion, ac felly mae'n rhaid cydbwysu hyn â cholli cyfleoedd dysgu.

Gan ystyried y ffactorau hyn, bernir bod y 5 diwrnod statudol presennol ar gyfer hyfforddiant yn adnodd priodol a sylweddol i'r holl ysgolion yng Nghymru ac nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i gyflwyno unrhyw ddiwrnodau ychwanegol.

9.7 A fydd Model Dysgu Proffesiynol ynghylch ADY?

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cynnig dysgu proffesiynol i athrawon a fydd yn eu cynorthwyo i ddiwallu anghenion eu holl ddysgwyr. Ochr yn ochr â chynnig dysgu proffesiynol i'r holl athrawon, rydym yn datblygu cynnig dysgu proffesiynol penodol i Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol a fydd yn cynnig arweinyddiaeth strategol ac yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cyngor ac arweiniad proffesiynol.

Bydd y cynnig dysgu proffesiynol ynghylch ADY yn cyd-fynd â'r Model Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol ac yn gyson â'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

10 Y Cod

10.1 Beth yw statws y Cod drafft ac ym mhle y gallaf ddod o hyd i gopi ohono?

Cyhoeddwyd fersiwn o'r Cod drafft ar 14 Chwefror 2017 i gefnogi'r broses o graffu ar y Bil ac mae ar gael drwy wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=16496>

Fodd bynnag, nid oes gan y fersiwn hwn o'r Cod drafft statws cyfreithiol. Bydd wedi cael ei newid yn sylweddol erbyn iddo gael ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori.

10.2 *Beth yw'r camau nesaf o ran datblygu'r Cod?*

Bydd drafft newydd o'r Cod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn 2018 a 2019. Bydd angen iddo gael cymeradwyaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, fel y nodwyd yn y Ddeddf, cyn y gellir ei gyhoeddi. Rydym yn disgwyl i hyn ddigwydd yn rhan olaf 2019.